

Diolch i chi am ddweud eich barn wrthym trwy Lais y Mabwysiadwr a Baromedr Mabwysiadu Cymru



Gwasanaeth
Mabwysiadu | National
Cenedlaethol | **Adoption**
Service

Achieving More Together /
Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

Gwranddo arnoch chi

Dyma drosolwg cryno o'r adborth y mae mabwysiadwyr wedi ei rhoi o bob cwr o Gymru a, ac o bosib, yr un mor bwysig, yr hyn yr ydym yn ei wneud yn ei gylch.

Mae NAS yn gweithio gyda Adoption UK Cymru (AUK) i gasglu barn mabwysiadwyr er mwyn gwybod sut y gallwn wella gwasanaethau. Eleni, mae AUK wedi ymgynghori a r 5 brif blaenoriaeth yn ogystal â llunio adroddiad i Gymru yn unig.

RECRIWTIO AC ASESU – Y Broses Cymeradwyo a Pharu

Yr hyn yr ydych wedi'i ddweud

Yn ôl y mabwysiadwyr, roedd y broses hon yn gadarnhaol ar y cyfan, ond roeddent yn parhau i bryderi ynghylch yr oedi. Teimlai ychydig dan hanner, ar ryw bwynt, bod y broses mor anodd, eu bod yn tybio a byddent yn dal ati. Fodd bynnag, roedd y teuluoedd hynny a oedd wedi mabwysiadu'n fwy diweddar yn fwy cadarnhaol a:

- dywedodd 99% eu bod yn ystyried bod hyfforddiant cyn cymeradwyo yn addysgiadol a defnyddiol
- teimlai 86% bod yr wybodaeth am y broses yn drwyadl
- dywedodd 83% o'r Mabwysiadwyr eu bod yn cael eu deall a'u cynorthwyo.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud

Mae'r cam i lobio Llywodraeth Cymru, y soniwyd amdano y llynedd, wedi bod yn llwyddiannus. Cwblhawyd y gwaith o rhoi proses cymeradwyo, dau gam, ar waith i recriwtio ac asesu. Bydd hyn yn egluro disgwyliadau a fframiau amser ac mae'n barod i gael ei ledaenu unwaith y bydd y rheoliadau'n cael eu newid ym mis Ebrill 2020.

CYSWLLT

Yr hyn yr ydych wedi'i ddweud

Adroddwyd bod trefniadau cyswllt yn aml yn dod yn anymarferol dros amser. Cred mabwysiadwyr bod angen mwy o gefnogaeth i fabwysiadwyr a rhieni biolegol yn ogystal ag ymchwil i ddeall yn well yr hyn fyddai'n gweithio orau i blant.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud

Mae'r maes hwn hefyd yn elwa ar mwy o swyddi gwaith cymdeithasol a swyddi cymorth, i helpu i ddarparu gwahanol ddulliau cyswllt fydd yn gweithio'n well. Rydym wedi comisiynu AFA Cymru i ddatblygu canllawiau arfer da, ac i gefnogi hyn bydd staff y gwasanaethau mabwysiadu rhanbarthol a'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn derbyn hyfforddiant ychwanegol. Cydnabuwyd nad yw amseriad cytuno ar drefniadau cyswllt yn gweithio'n dda yn aml pan fydd achosion llys yn mynd yn eu blaenau. Mae ffyrdd eraill o weithio gyda theuluoedd biolegol a mabwysiadwyr yn cael eu datblygu. Mae Adoption UK yn cynnig hyfforddiant ar ôl cymeradwyo, yn ymwneud â Chyswllt ar draws yr holl rhanbarthau yng Nghymru, a hynny'n dechrau yn Ionawr 2020. Mi fydd am ddim i'r mwyafrif o deuluoedd.

CYMORTH MABWYSIADU – Gwaith Taith Bywyd

Gofynnwyd i Fabwysiadwyr hefyd am waith Taith Bywyd; Cyswllt a Chymorth Ar Ôl Mabwysiadu.

Mae Cymorth Mabwysiadu wedi derbyn hwb enfawr gan becyn buddsoddi gwerth £2.3m gan Lywodraeth Cymru, i'w ddsbarthu yn 2019/20. Roedd fframwaith eisoes ar waith i ganfod blaenoriaethau i'w datblygu, ac mae eich barn wedi parhau i fod yn hanfodol o ran llunio'r gwasanaethau wrth iddynt ddod ar lein.

Yr hyn yr ydych wedi'i ddweud

Tra nodwyd rhywfaint o welliant o ran derbyn deunyddiau taith bywyd ar amser, yn enwedig gan fabwysiadwyr mwy diweddar, mae angen mwy o waith i wella hyn yn ogystal a gwella ansawdd a chywirdeb yr wybodaeth. Croesewir mwy o hyfforddi a chydweithredu rhwng mabwysiadwyr a gweithwyr proffesiynol.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud

Erbyn hyn, buddsoddwyd mewn datblygu hyfforddiant ac adnoddau i wella Gwaith Taith Bywyd. Mae cydlynwyr taith bywyd yn cael eu penodi yn yr holl wasanaethau mabwysiadu rhanbarthol ac mae rhai awdurdodau lleol wedi penodi hyrwyddwyr. Mae cronfeydd data yn cael eu datblygu i wella mynediad i wybodaeth am blentyn. Bydd hyfforddiant uwch ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth yn cael ei gyflwyno erbyn Mawrth 2020.

Mae mwy o waith cydweithredol yn cael ei annog rhwng gofalwyr maeth; rhieni mabwysiadol a gweithwyr cymdeithasol i ddefnyddio'r offer a'r deunyddiau gyda'i gilydd i helpu i sicrhau y deallir a gwerthfawrogi straeon bywyd plant yn well. Mae cyrsiau ar waith Taith Bywyd wedi'u cynnal ar gyfer rhieni sy'n mabwysiadu ym mhob rhanbarth gwasanaeth mabwysiadu dros y 12 mis diwethaf. Roedd y rhain am ddim i fabwysiadwyr newydd ac ar gael am gost isel i eraill.

Mae pethau'n gwella, yn ddiweddar roeddem yn gallu adrodd bod deunyddiau taith bywyd ar waith i 53% o blant adeg eu 2ail adolygiad ac i 69% o blant a oedd wedi eu paru. Rydym yn anelu i rhagori ar hyn.

CAMHS a gwasanaethau lles emosiynol

Yr hyn yr ydych wedi'i ddweud

Ar y cyfan roedd mabwysiadwyr yn teimlo'n anfodlon dros ben â'r gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, am fod angen mwy o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, sut i gael hyd iddynt a gwybodaeth/cyngor ymarferol ynghylch sut i ddarparu cefnogaeth i blant â phroblemau iechyd meddwl, i'w helpu. Roed y rheini a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn dweud bod rhestrau hir ar gyfer asesiadau ac wedi hynny, diffyg cymorth yn dilyn diagnosis.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud

Rydym yn gweithio mewn nifer o ffyrdd i ddarparu gwasanaethau therapiwtig i blant a phobl ifanc sy'n cael eu mabwysiadu, a chymorth ar gyfer eu teuluoedd.

Mae cyllid ar y cyd gan Llywodraeth Cymru a Chronfa Cymunedau'r Loteri Fawr yn golygu y gall Adoption UK ddarparu TESSA (Gwasanaeth Cymorth Addysg Therapiwtig yn y Maes Mabwysiadu).

Yn seiliedig ar ei gyflwyno trwy rhieni-partneriaid sy'n derbyn tâl (mabwysiadwyr profiadol a hyfforddedig), mae TESSA hefyd yn ymgorffori asesiad gan seicolegydd arbenigol a chwrs 6 wythnos (yn seiliedig ar lwyddiant gwasanaeth a gafodd ei ddarparu gan un Bwrdd Iechyd yng Nghymru), yn ogystal â mynediad i wasanaethau cymorth eraill a argymhellir.

Ochr yn ochr â hyn, mae pob gwasanaeth rhanbarthol yn datblygu swyddi seicolegwyr a swyddi therapiwtig ychwanegol i gynnig ystod o gymorth arbenigol ac wedi ei dargedu.

Mae Adoption UK yn darparu llinell gymorth i fabwysiadwyr, ac mae ar gael 5 niwrnod yr wythnos.

Rydym hefyd yn ehangu gwasanaethau uniongyrchol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu.

Lansiwyd y gwasanaeth 'Cysylltu' a fydd yn:

- Darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu gael cymorth grŵp
- Gwella'r cyngor a'r wybodaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu
- Datblygu cynllun llysgennad ifanc

Rydym hefyd wedi datblygu llyfryn gwybodaeth a phosteri i weithwyr proffesiynol yn y maes iechyd, yn cynnwys y rheini sy'n gweithion mewn gwasanaethau CAMHS i'w helpu i ddeall materion mabwysiadu yn well. Bydd hyn yn helpu i ddarparu rhwydwaith o wybodaeth a chymorth priodol i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu, yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

CYMORTH AR ÔL MABWYSIADU

Yr hyn yr ydych wedi'i ddweud

Roedd rhai agweddau ar yr hyn a ddywedasoed wrthym yn 2017/18 wedi gwella yn enwedig i fabwysiadwyr mwy diweddar, ond mae gwahaniaethau yn bodoli o hyd yn yr hyn sydd ar gael, mynediad a chyllid, ledled Cymru. Mae diffyg gwasanaethau therapiwtig amserol yn parhau i fod yn bryder ac roedd darparu lwfansau mabwysiadu hefyd yn anghyson. Nododd dros hanner yr ymatebwyr eu bod wedi wynebu straen, pryder neu symptomau iselder ar ôl mabwysiadu.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud

Yn ogystal â'r pethau a gafodd eu crybwyll uchod, mae'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Mwy o hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth ynghylch mabwysiadu ar draws lleoliadau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.
- Gwell cymorth cynnar i symud plentyn o leoliad gofal maeth i leoliad mabwysiadu a chymorth cynnar.
- Mwy o hyfforddiant mewn gwaith uniongyrchol a therapi i'r rheini sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi cael eu mabwysiadu.
- Datblygu TESSA – rhwydwaith cymorth Cymru gyfan i fabwysiadwyr, gan Adoption UK, i gynnwys mewnbyn gan seicolegydd clinigol, cyrsiau a chymorth i unigolion a grwpiau cyfoedion.
- Gwasanaeth newydd i Blant a Phobl Ifanc (a elwir yn Cyswllt) i'r rheini sy'n cael eu mabwysiadu.
- Gweithredu 'cynnig craidd' o hyfforddiant a chymorth cyn mabwysiadu ac ar ôl mabwysiadu

Rydym hefyd wedi rhoi polisi cyffredin ar waith ar Lwfansau Mabwysiadu a ddylai dechrau gwella cysondeb yn y maes hwn.

ADDYSG

Yr hyn yr ydych wedi'i ddweud

Er bod mabwysiadwyr yng Nghymru yn gyffredinol yn fwy cadarnhaol am eu profiad o addysg na'r rhai o rannau eraill o'r DU, roedd anghysondeb rhwng yr hyn yr oedd ysgolion yn ei ddarparu. Byddai mwyafrif y mabwysiadwyr yn croesawu gwell hyfforddiant a dealltwriaeth ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol a mwy o arian mewn ysgolion i gefnogi plant sy'n cael eu mabwysiadu. Byddai'r mwyafrif o deuluoedd yn cefnogi tagio cofnodion academaidd yn gyfrinachol mewn ysgolion i fonitro cyrhaeddiad a chynhwysiant.

Yr hyn yr ydym yn ei wneud

Mae Adoption UK yn gweithio gyda mabwysiadwyr a phlant a phobl ifanc sy'n cael eu mabwysiadu, i ddeall yr heriau a geir wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Bydd fideo newydd i athrawon yn cael ei rhyddhau ym mis Mawrth 2020 ac mae pecyn hyfforddi yn cael ei ddatblygu i'w ddefnyddio gan yr holl staff ysgol sy'n gysylltiedig â phontio ledled Cymru.

Mae'r llyfrynau 'Getting it right for every child', un i rhieni ac un i staff yn y maes addysg yn cael eu defnyddio'n dda.

Rydym yn cydnabod bod mwy
o lawer i'w wneud ac mae
gennym gynllun parhaus
sy'n cynnwys ceisio newid
y fframwaith cyfreithiol a
sichrau mwy o adnoddau